

RHAGAIR

ER nad myfi, ond f'olynydd, y Llyfrgellydd Cenedlaethol, a olygodd y rhan bwysicaf o'r gyfrol hon, sef yr *Atodiad* (1941-50), dymunodd y Pwyllgor arnaf fi, fel Golygydd y *Bywgraffiadur* cyntaf, ysgrifennu math o ragair iddi.

Ond prudd iawn yw'r gorchwyl cyntaf sydd gennyf, sef cyfeirio at farwolaeth Syr John Cecil-Williams, Ysgrifennydd Cymdeithas y Cymmrodorion o 1934 hyd y llynedd. Bydd yn gryn amser cyn i ryw *Atodiad* yn y dyfodol gronico ei yrfa ef yn llawn, felly ni nodaf yma ond iddo gael ei eni (yn Llundain) ar 14 Hydref 1892, a marw ar 30 Tachwedd 1964. Os yw *Trafodion* y Gymdeithas am ail rifyn 1964 yng nghyrraedd y darlennydd, fe wêl yno (tt. 162-6) grynodedb o hanes bywyd Syr John, a dwy deyrnged deilwng iawn iddo gan ddau o'i gyd-swyddogion yn y Gymdeithas y llafuriodd ef mor galed ac mor llwyddiannus drosti. Eithr gyda'i holl weithgarwch yn Llundain a manau eraill, Uwchaled oedd agosaf at galon Syr John, yng Ngherrig-y-drudion y cafodd ei addysg foreaf, ac yn ei llan hi y gorwedd ei weddillion. Adwaenai bob man yn y fro, a cherdded ar ei hyd ac ar ei thraws oedd ei hoffter yn ystod ei wyliau.

Y mater uniongyrchol y sylwaf arno yn awr yw cysylltiad Syr John â'r *Bywgraffiadur* hwn. Nid yw'n ormod dweud na buasai'r llyfr byth wedi gweld golau dydd oni buasai am ei benderfyniad diildio ef. Pan dorrodd y Rhyfel yn 1939, llwyr ddryswyd y trefniadau ariannol, ac ofnai Syr John Lloyd, ei olygydd, na chlywem ddim mwy am y cynllun. Ond ni phetrusodd Cecil-Williams am foment. Aeth ati i gasglu'r arian gan ymweld â phob cyngor sir yng Nghymru, ac â chymdeithasau diwylliannol megis y *Pilgrim Trust*. Ni chafodd y gwaith yn esmwyth; a bu'n rhaid iddo ymweld fwy nag unwaith â'r awdurdodau; ond yn y diwedd aeth â'r maen i'r wal. Ac er mai gŵr rhadlon ydoedd ef, clywais dystiolaeth gan wŷr amlwg iawn, nad oedd rhyw lawer o fêl yn ei areithiau (na llai fyth yn ei lythrau) pan deimlai mai petrus oedd ymateb y sawl yr ymdriniai â hwy. Ie, efô yn

bennaf sy'n haeddu teyrnged o ddiolch gan olygyddion olynol y *Bywgraffiadur*.

*

*

*

Gan mai diwygio ac ychwanegu a welir yn ail adran y gyfrol hon, nid amhriodol fydd atgoffa'r cyhoedd am yr amodau y gweithiai Syr John Lloyd a Syr William Davies a minnau danynt. Un gyfrol heb fod dros fil o dudalennau a ganiateid i ni; ac wrth raid fe gyfyngai hynny lawer iawn ar ein dewis o enwau i'w cynnwys yn y gyfrol. Mi gofiai rywun mewn cyfarfod cyhoeddus yn pwyso ar Syr John Lloyd i beidio â rhoi gormod o bregethwyr i mewn; gwenodd y golygydd ac atebodd mai pregethwyr Cymru yng ngolwg ei gwerin *oedd* enwogion Cymru. Efallai nad yw hynny'n hollol wir heddiw, ond parodd inni gryn drafferth yn y dewis ohonynt. Yn fras, dyma'r cynllun a ddewisasom: (a) cynnwys y gwŷr *oedd* yn wir enwog fel pregethwyr, fel yn eu heglwys neu yn eu henwad — i ddewis dwy enghraifft, clerigwyr fel David Parry, Llywel ('Y Gloch Arian') a 'Llawdden'; (b) gweinidogion o'r teip a enwir yn Saesneg 'Ecclesiastical Statesmen', hynny yw, y bu ganddynt ran flaenllaw mewn symudiadau pwysig yn nhrefniadaeth eu heglwys neu eu henwad; (c) gwŷr parchedig a gyfrannodd i lenyddiaeth Cymru — wrth gwrs, beirdd yn aml iawn. Drachefn ym myd addysg ceisiasom sylwi ar athrawon nodedig yn y cyfnodau cyn datblygiad y gyfundrefn gyhoeddus o ysgolion; ni roddasom le i athrawon y gyfundrefn fodern oni byddai ganddynt hefyd hawl fel llenorion (er enghraifft, 'Glanceri' a David Samuel). Dyna'r *math* o anhawster a gawsom wrth ddewis yr enwau. Ond buan ar ôl cyhoeddi'r gyfrol y dechreuodd llythyrau o brotest gyrraedd swyddfa'r Cymmrodorion a'r ddau olygydd, fod hwn a hwn wedi'i adael allan. Weithiau teimlem ninnau fod y gŵyn yn gyfiawn, a cheisiasom lenwi'r bylchau yn yr argraffiad Saesneg, ond gan amlaf ni ellid wneud dim.

Mater arall o bwys *oedd* cywirdeb dyddiadau. Wrth raid y mae'n anodd cael hyd i ddyddiadau cywir y canrifoedd cyn y ganrif ddiwethaf, ond galleid meddwl y byddai'n eithaf hawdd, neu o leiaf yn bosibl dod o hyd i ddyddiadau yn y cyfnod diweddar. Nid felly: methwyd yn glir darganfod pa bryd y bu farw gŵr o sir Drefaldwyn a ysgrifennodd lyfr go bwysig ar hanes y Siarter ym Maldwyn, er i

chwilotwyr profiadol yn y sir ymdrechu i gael hyd i'r flwyddyn. Drachefn, cawsom wybod nad yw cerrig beddau yn rhyw ddibynnol iawn yn eu dyddiadau. Gwaeth fyth nid yw blwyddiaduron, dibynnol iawn gan amlaf, ddim bob amser yn ddibynnol. Wrth lwc, y mae recordiau plwyfol yr Eglwys yng Nghymru'n gaffaeliad mawr — ond nid bob amser y maent ar gael, ar waethaf y dygn ymdrech i'w casglu i ddiddoswydd y Llyfrgell Genedlaethol. Ac y mae cyfeirlyfrau cyhoeddus (a dibynnol iawn fel rheol) wedi ein camarwain ar brydiau. Er enghraifft, dywed yr ysgrif olaf un yn y *Bywgraffiadur* fod y 'gwrthrych' wedi marw yn 1915 (meddai cyfeirlyfr haeddiannol fawr ei fri) — ond hysbyswyd fi'n chwyrn gan ei frodyr yn y weinidogaeth fod y gwŷr parchedig eto'n fyw yn 1940 ac felly na ddylasai fod yn y gyfrol o gwbl — bellach, rhwng Mr. E. D. Jones ag ef! Yn yr un modd, yr oedd eraill wedi eu camddyddio, ar sail cylchgronau swyddogol eu cyfundebau crefyddol. Wel, deliais i 'gywiro'n' ddefosiynol, hyd oni phallodd amynedd y Pwyllgor, a oedd (yn hollol naturiol) yn pryderu pa bryd ar y ddaear y deuai'r gyfrol newydd allan o'r wasg; a chefais orchymyn pendant i beidio â newid dim yn rhagor. Felly, does wybod pa gynifer o wallau sydd eto yn y llyfr. Peth chalondid imi yw gwybod fod hyd yn oed y *Dictionary of National Biography* yntau yn yr un cyflwr — gwelais yn Llundain gasgliad mawr o gardiau'n nodi'r cywiriadau ynddo.

Y 'diwygiadau' hyn yw cynnwys ail ran y gyfrol bresennol. Fe'u dosbarthwyd yn dair adran:—

- (a) Cywiriadau (er enghraifft mewn dyddiadau) na ofynnent ond ychydig eiriau;
- (b) Cywiriadau a ofynnai am fwy nag ychydig linellau a hefyd ychydig ysgrifau y bu'n rhaid eu hail-lunio yng ngoleuni ymchwil neu gyfraniadau diweddar iawn.
- (c) Cyfieithiad o'r ysgrifau a ychwanegwyd yn yr argraffiad Saesneg.

Ond tybiais hi'n ddoeth *restru pob un* o'r 'diwygiadau' hyn dan yr Adran A, sydd felly'n fath o fynegai i'r tair Adran. Credaf y bydd hynny'n hwylustod, gan y gall darllenwyr felly weled ymlaenllaw pa ysgrifau sydd wedi eu newid neu wedi eu hychwanegu. Fy nghyd-olygydd Miss Beatrice Davies a gafodd y gwaith blin o ddsbarthu'r

tair Adran, ac nid oes terfyn ar fy niolch iddi. Gweddus imi hefyd yw diolch i'r adolygwyr a'r gohebwy'r a dynnodd fy sylw at y camgymeriadau yn y *Bywgraffidur*.

Gyda hyn, dyma fi'n ffarwelio â'r gwaith y bûm mewn cyswllt ag ef byth er 1937. Bu ar brydiau'n waith llafurus, ond nid byth yn waith anniddorol. Dymunaf bob llwyddiant i'm cyfeillion sydd bellach yn gyfrifol am ddyfodol y *Bywgraffidur*.

R. T. JENKINS.

Medi 1965.